*Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr yw'r llais sy'n cynrychioli newyddiaduraeth a newyddiadurwyr yn y DU ac Iwerddon. Cafodd ei sefydlu yn 1907 ac mae ganddo dros 30,000 o aelodau sy'n gweithio ym myd darlledu, papurau newydd, asiantaethau newyddion, cylchgronau, cyhoeddi llyfrau, cysylltiadau cyhoeddus, ffotograffiaeth, fideograffiaeth a'r cyfryngau digidol.*

**Cyflwyniad**

Mae gan Gymru draddodiad newyddiadurol hir a balch. Ond mae'r pandemig Covid-19 wedi ergydio diwydiant oedd eisoes yn dioddef o gyflyrau iechyd sylfaenol. Roedd teitlau papurau newydd Cymreig wedi gweld toriadau i niferoedd newyddiadurwyr a diffyg buddsoddiad mewn newyddiaduraeth yn barod, cyn i'r feirws ymddangos. Roedd buddiannau'r cyfranddalwyr, gofynion y buddsoddwyr, a chymryd elw wedi cael y flaenoriaeth ar gyflwyno cynnwys newyddiadurol o safon. Pan oedd pethau'n llewyrchus, roedd y cyhoeddwyr yn pocedu'r elw yn hytrach na buddsoddi yn y dyfodol. Roedd uno cwmnïau wedi gwanhau lluosogrwydd y cyfryngau'n sylweddol hefyd.

Cyflymodd y dirywiad wrth i'r rhyngrwyd ddechrau dwyn hysbysebu oddi wrth y cyhoeddiadau printiedig. Ac er i'r rhain symud newyddiaduraeth i'r byd digidol, ni wnaeth yr hysbysebu ddilyn – gan ergydio papurau newydd lleol yn arbennig. Ers hynny mae Facebook, Google a'r cewri technolegol eraill wedi defnyddio cynnwys y papurau newydd heb dalu amdano, ac yna dangos ei diolch drwy draflyncu'r holl hysbysebu. Yn ôl Adolygiad Cairncross 2019, roedd nifer y newyddiadurwyr rheng flaen amser llawn yn gweithio yn y DU wedi gostwng o 23,000 yn 2007 i 17,000. Yn y cyfnod hwnnw, gostyngodd y gwariant blynyddol ar hysbysebu mewn papurau newydd o 69 y cant (£3.2 biliwn), a gostyngodd y refeniw cylchrediad blynyddol o 23 y cant (£500 miliwn). Gan fod cwmnïau eisoes wedi gorfod dileu swyddi ar raddfa fawr yn ystod 2020 a hanner cyntaf 2021, pan ddaw cynlluniau cymorth Covid-19 y llywodraeth i ben, ofnir y bydd mwy o swyddi'n diflannu a phapurau newydd yn cau os na welir gweithredu pellach.

Yn Ebrill 2020, cyhoeddodd yr NUJ ei Gynllun Adfer Newyddion fel ymateb i'r argyfwng a achoswyd i'r diwydiant gan Covid-19, a hefyd i adfywio'r cyfryngau drwy greu ecoleg ddarlledu a'r wasg sy'n fwy amryfath ac amrywiol, ac sy'n gosod newyddiaduraeth er budd y cyhoedd wrth galon y diwydiant. Bellach, mae Cyngor Gweithredu Cymru'r undeb yn

archwilio Cynllun Adfer ar gyfer Cymru, mewn cydweithrediad â newyddiadurwyr, gwleidyddion, busnesau a chymunedau.

**Y Materion**

- Roedd teitlau papurau newydd Cymreig wedi cael eu hysbeilio'n barod, cyn y pandemig, gyda chyhoeddwyr yn hufennu 20-30 y cant o'r elw yn lle buddsoddi.
- Collwyd nifer sylweddol o swyddi ar draws papurau newydd, yn cynnwys yn Reach a Newsquest.
- Caeodd teitlau fel cyfres The Glamorgan Gem oedd yn gwasanaethu'r Fro.
- Mae Facebook, Google a chewri technoleg eraill wedi mynd â chynnwys heb dalu amdano ac wedi monopoleiddio'r refeniw hysbysebu ar-lein. Mae'r pandemig wedi cwtogi ymhellach ar hysbysebu ac mae cylchrediad rhai papurau newydd wedi gostwng.
- Mae'r toriadau mewn darlledu'n cynnwys: toriadau cyllideb o £4.5m yn BBC Cymru, gyda swyddi'n cael eu colli. Gostyngodd incwm hysbysebu ITV o 42 y cant, bydd ei wariant cyfalaf yn cael ei dorri o £30m, a chyllidebau rhaglenni'n cael eu torri o £100m. Mae cyllid S4C wedi gweld toriad net o £20m dros y 10 mlynedd diwethaf a bydd cyllid gwerth £7m y flwyddyn gan lywodraeth y DU yn diweddu yn 2022 – trosglwyddir y cyfrifoldeb am gyllido i'r BBC.
- Mae'r pandemig hefyd wedi amlygu diffyg lluosogrwydd ac annibyniaeth y wasg wrth i bapurau newydd Cymreig gyhoeddi hysbysebion â chyngor Covid-19 ar gyfer Lloegr.
- Mae presenoldeb newyddiaduraeth leol yn angenrheidiol er mwyn gweld amrywiaeth yn y cyfryngau ac yn y gynulleidfa yn cynyddu'n gynaliadwy. Rhaid bod newyddiadurwyr iau a rhai o gefndir amrywiol yn medru ystyried newyddiaduraeth fel gyrfa, ac yn cael cyfleoedd lleol am dâl i fynd i mewn i fyd newyddiaduraeth. Mae interniaethau di-dâl yn rhwystr anferth.

**Cynigion ar gyfer Llywodraeth Cymru**

- Cydnabod newyddiaduraeth fel gwasanaeth cyhoeddus yn ffurfiol.
- Cydnabod bod y cyfryngau hyperleol annibynnol yr un mor bwysig â'r cyfryngau prif ffrwd.
- Sefydlu gweithgor tymor byr – y Gweithgor Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd. Mae menter debyg a sefydlwyd gan Lywodraeth Yr Alban wedi cael llwyddiant mawr, gydag arbenigedd cyfranwyr o'r NUJ, y Rhwydwaith Newyddion Cymunedol Annibynnol (ICNN) a'r IWA.
- Ailddosbarthu cyllid Hysbysiadau Statudol, a rhoi mynediad i ddatganiadau i'r wasg sector cyhoeddus i aelodau'r ICNN.

- Dim cyllid cyhoeddus i gwmnïau sy'n torri cyflogau, dileu swyddi ac yn gwneud taliadau bonws i weithredwyr, a rhoddi cyllid yn amodol ar gydnabod undebau llafur, cyflogau teg, a thelerau ac amodau.
- Treth ffawdelw ar y cewri technoleg – mae'r Cynllun Adfer yn galw am dreth ffawdelw o 6 y cant, ac yna treth seiliedig ar elw a fydd yn rhan o Dreth Gwasanaethau Digidol sy'n ariannu newyddiaduraeth er budd y cyhoedd. Dylai Llywodraeth Cymru drafod posibiliadau cyllido penodol ar gyfer Cymru gyda Facebook, Google ac Apple.
- Creu Sefydliad Newyddiaduraeth Cymru (ar hyd braich oddi wrth y llywodraeth) i fuddsoddi mewn newyddion lleol a phrosiectau newyddiadurol blaengar.
- Cynigiodd yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon £2 filiwn mewn grantiau drwy'r sefydliad arloesi NESTA i ddarparu cyllid ar gyfer cychwyn busnesau a modelau newyddiaduraeth newydd. Gellid mabwysiadu model tebyg yng Nghymru.
- Rhoddi statws 'ased o werth cymunedol' i bapurau newydd lleol (yn cynnwys deddfwriaeth grymuso cymunedau) gan sicrhau bod teitlau'n cael eu diogelu. Byddai hyn ar y cyd â chymorth busnes ac ariannol fel y gallai mentrau cymdeithasol a chydweithfeydd newyddiadurol lleol gymryd teitlau drosodd.
- Strategaeth genedlaethol ar gyfer llythrennedd y cyfryngau i fynd i'r afael â thwyllwybodaeth a newyddion ffug ar-lein. Gellid trefnu hyn ar y cyd â'r BBC, ITV, yr NUJ ac ysgolion newyddiaduraeth.
- Gellid ystyried talebau i bobl ifanc i brynu papurau newydd/tanysgrifiadau newyddion – gallai hyn gael ei gyfyngu i allfeydd newyddion a leolir yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod pobl ifanc 16 i 18 oed yn gallu cyrchu ffynonellau newyddion dibynadwy fel y gallant gyflawni eu dyletswydd ddemocrataidd.
- Darparu cyllid ar gyfer prentisiaethau i hyfforddi newyddiadurwyr yn y sector Addysg Bellach.
- Credydau treth a benthyciadau di-log i gefnogi swyddi yn y cyfryngau yng Nghymru. Rhaid i'r arian hwn gael ei gyfeirio at newyddiaduraeth rheng flaen.
- Cymorth ariannol ar gyfer cydweithfeydd newyddiadurol a menter gymdeithasol lleol sy'n cymryd teitlau drosodd.
- Buddsoddi strategol yn defnyddio cyllideb hysbysebu llywodraeth Cymru, yn cynnwys y sector hyperleol. Dylai hyn gynnwys gwariant gan awdurdodau lleol a'r sector cyhoeddus.
- Cynrychiolaeth o 25 y cant i weithwyr ar fyrddau gweithredol sefydliadau sy'n derbyn cyllid cyhoeddus.
- Cymorth tymor hirach i weithwyr llawrydd/hunangyflogedig a syrthiodd rhwng cynlluniau'r llywodraeth ac sy'n cymryd mwy o amser i ymadfer yn ariannol oherwydd y toriadau i gyllidebau llawrydd ac i'r gwaith sydd ar gael.
- Parhau i alw ar lywodraeth y DU i gadw'r codiad o £20 yn y Credyd Cynhwysol a fydd yn dod i ben ym mis Hydref. Yn ôl yr ystadegau, mae miliynau yn fwy wedi gorfod

hawlio hwn o gymharu â chyn y pandemig a byddai dileu'r codiad hanfodol hwn yn gwthio llawer i dlodi dyfnach.

- Llywodraeth Cymru i lofnodi Siarter Gweithwyr Llawrydd yr NUJ - https://www.nuj.org.uk/resource/fair-deal-for-freelances.html

Mae'r NUJ yn croesawu'r rhan ganolog bydd y Pwyllgor yn ei chwarae wrth fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu'r Cyfryngau yng Nghymru ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor.

Cyfarwyddyd gan yr NUJ ar effaith Covid-19 ar y cyfryngau yng Nghymru/NUJ briefing on the impact of Covid-19 on the Welsh media:
https://www.nuj.org.uk/resource-report/nuj-briefing-on-the-impact-of-covid-19-on-the-welsh-media-cyfarwyddyd-gan-yr-nuj-ar-effaith-covid-19-ar-y-cyfryngau-yng-nghymru.html

Cynllun Adfer Newyddion yr NUJ: o argyfwng iechyd i newyddion da:
https://www.nuj.org.uk/resource-report/from-health-crisis-to-good-news.html